

WALES

Taith Gerdded Craig y Borion Fach Ystâd Colby (Llwybr Glas)

Taith gerdded gylchol hawdd, trwy goetir, gan groesi nant ac i fyny at drysor cudd Fferm 'Craig y Borion Fach' (bwthyn gwyliau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol). Golygfeydd gwych ar draws tir fferm wrth i chi ddisgyn yn ôl i Ardd Goedwig Colby.

i Canfod bywyd gwylt

Mae'r gwanwyn yn dod â'r cyfle i weld Delor y Cnau neu Gnocell Fraith Fwyaf, gyda Gwybed Mai yn dawnsio dros ddŵr bywiog. Mae gloŷnnod byw cynnar fel y Brwmstan a'r Gwyn Blaen Oren yn dod i'r amlwg. Mae ymylon ac isdyfiant y coetiroedd yn llawn clychau'r gog. Cadwch lygad am gwningod ar ymylon tir fferm. Yn yr haf, gwrandewch am ganeuon melodig y Penlŷnnod a galwad nodedig y Piod bach. Mae ystumod yn hela pryfed gyda'r cyfnos. Efallai y byddwch chi'n gweld brogaod a madfallod dŵr mewn ardaloedd coetir llaith. Yn yr hydref, chwiliwch am ffyngau, ar y coed a'r canghennau sydd wedi cwmpo. Mae gwiwerod a mamaliaid bach yn casglu bwyd ar gyfer y gaeaf. Yn y gaeaf, mae'r coetiroedd yn dod yn fyw gyda heidiau o Ditwod Mawr, Titwod Tomos Las, a Thitwod Cynffon Hir yn bwydo, tra bod Adar Du, Robin Goch, a Drywod yn llenwi'r awyr â'u galwadau. Mae gwrychoedd fferm yn darparu lloches yn y gaeaf i'r Cesig y Ddrycin a'r Esgyll Cochion.



Gwybodaeth

Cyfeiriad: Gardd Goetir Colby, ger Llanrath, Sir Benfro, SA67 8PP

Gweithgaredd: Cerdded

Hawdd

Addas i gŵn: Croeso i gŵn dan reolaeth agos ar Ystâd Colby. Croeso i gŵn ar dennyn yng Ngardd Goedwig Colby. Cŵn ar dennyn yn unig drwy dir fferm (gweler yr arwyddion ar y gatiâu wrth fynd i mewn i dir fferm).

Llwybr llawn: Milltiroedd: 2.2 (km: 3.52)

Hyd: 1 awr 15 munud

Tirwedd

Mae'r dirwedd yn amrywio. Mae gan lawer o ardaloedd yn y coetir dir anwastad, gallant fod yn fwdlyd, ac maent yn cynnwys cerrig rhydd a gwreiddiau coed agored. Pont bren yn croesi nant, cul, dim canllaw, llithrig. Weithiau gellir croesi'r nant. Arwyneb trac mynediad carreg galed.

Cyfanswm y rhannau: 6

Man cychwyn: Maes parcio uchaf Ystad Colby, cyf. grid: SN 15990 08175

1. Gan wynebu'r hysbysfwrdd ym mhen uchaf y maes parcio, ewch i'r chwith ar hyd y llwybr coetir. Parhewch am tua 15 munud, ychydig cyn diwedd y trac trowch i'r chwith ar ddisgyniad ysgafn i lawr trac tuag at y nant.
2. Naill ai croeswch y nant wrth y rhyd pan fydd llif y dŵr yn isel neu defnyddiwch y llwybr troed sengl i groesi (dim canllaw). Dilynwch y marcwyr llwybr glas sy'n mynd i fyny esgyniad serth byr gan barhau o amgylch tro pedol llym. Wrth ael y bryn, cadwch i'r chwith ar eich llwybr wrth iddo droi tuag at Craig y Borion Fach. (Anwybyddwch y llwybr â giât i'r dde ar gyfer y llwybrau Pinc ac Oren). Mae'r llwybr yn lefelu.
3. Yn fferm Craig y Borion Fach cerddwch o flaen y ffermdy ac i fyny'r bryn i ddilyn ei lwybr mynediad cerbydau tawel yr holl ffordd wrth iddo ddisgyn i'r ffordd.
4. Byddwch yn cyrraedd anheddiad o fythynnod ac yn pasio mynediad preifat i hen 'Fwthyn Clwb' y glowyr ar eich chwith. Ar eich dde, fe welwch fwthyn arall gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a fu unwaith yn gartref i'r sawl a roddodd Tŷ Colby i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
5. Trowch i'r chwith wrth y ffordd, gan basio Rose Cottage ar eich chwith (bwthyn gwyliau'r Ymddiriedolaeth).

Manylion uchder: Cyfanswm esgyniad 80m/disgyniad 80m.
Pwynt uchaf: 150m

6. Ewch heibio i fynedfa Tŷ Colby (preifat) ar eich ochr dde, i gyrraedd mynediad cyhoeddus cefn at yr Ystafell De a'r toiledau. Ewch i'r Oriel Grefftau, a chanolfan ymwelwyr a siop lyfrau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. I ddychwelyd i'r maes parcio uchaf, cymerwch y llwybr gyferbyn â mynedfa'r maes parcio isaf.

Man gorffen: Maes parcio Ystad Colby, cyf. grid: SN 15990 08175
